

---

# BWLETIN POLISI CYTŪN

MAI 2018

---



## DUW BENDITHIA'R GIC!

Mae [Eglwys Undebol Dewi Sant, Pontypridd](#), mewn cysylltiad â Cytûn, yn annog pobl, beth bynnag eu ffydd neu gred, i ymuno wrth ddathlu 70ain penblwydd y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol ar 5ed Gorffennaf 2018. Gwyddom oll sut yr ysbrydolwyd y GIC yng Nghymru, trwy [brofiadau Aneurin Bevan yn Nhredegau](#).

Ar ei [gwefan arbennig](#), dywed yr eglwys, "I ni yn Eglwys Undebol Dewi Sant, daw llawer o'r awydd i ddathlu o'n ffydd Gristnogol. Beth sydd a wnelo'r Eglwys â'r GIC? Wel, ar wahân i hanes hir arloeswyr Cristnogol yn y proffesiwn meddygol (gweler St Basil o Gesarea, St Camillus, Syr Thomas Browne, Betsi Cadwaladr, Florence Nightingale, Elizabeth Blackwell, Elizabeth Fry...) a'r ffaith amlwg fod pawb yn yr Eglwys yn elwa ohono, mae yna lu o resymau pam y dylai fod gan yr eglwys ddiddordeb yn ac yn hybu'r syniad o ofal iechyd am ddim i bawb.

Mae egwyddorion canolog y GIC yn gyflin ag egwyddorion y Beibl – cymdeithas lle mae anghenion pawb yn fater i bawb; lle nad yw tosturi na gofal yn seiliedig ar arian ond yn hanfodol i'n dynoliaeth; lle mae'r sawl sy'n fregus neu'n sâl i'w trin fel pobl, nid cwsmeriaid. Ein cred yw pan ddaeth Duw atom ar ffurf ddynol, iddo ofalu am y bregus ac iacháu'r cleifion; iddo herio obsesiwn â chyfoeth a'n cymell i garu cymdogion a dieithriaid; iddo olchi traed, cyffwrdd â gwahangleifion, trin yr ifainc a'r henoed â pharch a chyhoeddi teyrnas cyfiawnder a llawenydd lle byddai iechyd a iechydwriaeth i bawb."

Gallwch ddathlu unrhyw bryd yn ystod 2018. Dyma ambell awgrym:

- Trefnu parti penblwydd i'r GIC.
- Cliciwch [yma](#) i uwchlwytho fideo byr o'ch grŵp yn dweud neu'n canu 'Duw fendithia'r Gwasanaeth Iechyd'
- Casglu profiadau pobl o'r GIC ar gardiau post neu nodiadau diolch a threfnu eu cyflwyno i'ch ysbyty, meddygfa, deintyddfa ac ati yn lleol.
- Gwahodd hanesydd lleol i siarad am hanes meddygaeth yn eich ardal chi.
- Trefnu oedfa sy'n diolch am ac yn gweddïo dros bawb sy'n gweithio yn y GIC. Archwiliwch hanes eich ffydd o weithio gyda'r proffesiynau meddygol.
- Trefnu cyngerdd dathlu a diolch.
- Cyflwyno cerdyn penblwydd i'ch gwleidydd lleol, yn dangos eich gwerthfawrogiad o'r GIC a'ch awydd iddo gael cefnogaeth lawn.
- Gwahodd ysgolion lleol i ddathlu trwy ddrama, dawn, cerddoriaeth a chelf.
- Gyda'r trwyddedau angenrheidiol, trefnu grŵp darllen neu ffilm yn canolbwyntio ar sefydlu neu cynnal y GIC, e.e. [Gyrru Drwy Storum](#) (gol. Awel Griffiths) neu 'The Spirit of '45' gan Ken Loach.



Mae [Comisiwn Bevan](#) ym Mhrifysgol Abertawe yn lansio 'Sgwrs Fawr' i gael gwell dealltwriaeth o beth mae pobl yn ei feddwl am ddyfodol y GIC yng Nghymru, er mwyn datblygu atebion i heriau iechyd a gofal a sicrhau fod llais pobl i'w chlywed wrth gynllunio i'r dyfodol. Fe gyflwynir y casgliadau cychwynol yng [Nghynhadledd Ryngwladol Comisiwn Bevan 2018](#) yng Ngorffennaf.

# MWY O DDEFNYDD AR FANCIAU BWYD WRTH I'R CREDYD CYNHWYSOL FRATHU



Rhwng 1af Ebrill 2017 a 31ain Mawrth 2018, ar draws y DU fe ddosbarthwyd 1,332,952 o gyflenwadau bwyd tridie argyfwng gan rwydwaith banciau bwyd yr elusen Gristnogol [Trussell Trust](#) – cynnydd o 13% ar y flwyddyn flaenorol. Aeth 484,026 o'r rhain i blant. Mae hyn yn gynydd uwch nag yn y flwyddyn ariannol flaenorol, pan gododd defnydd o fanciau bwyd o 6.64%.

Cododd nifer y barseli a ddosbarthwyd yng Nghymru i 98,350. Mae hyn yn cymharu â [95,190 yn 2016-17](#), codiad o ddim ond 3.3%. Ond nid yw hyn yn cynnwys banciau bwyd a gynhelir gan fudiadau eraill – a mae disgwyl i gyflwyno'r Credyd Cynhwysol daro Cymru yn arbennig o galed yn ystod 2018 (gweler isod).

[Mae'r data](#) yn dangos fod nifer cynyddol o'r argyfyngau yn codi yn sgîl cyfraddau budd-dâl nad ydynt yn cwrdd â chost angenrheidiâu bywyd, gydag 'incwm isel' yn cyfrif am 28% o'r bobl ddaeth o'i gymharu â 26% y flwyddyn flaenorol. Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol ers Ebrill 2016, gan awgrymu fod angen edrych o ddifri ar lefel budd-daliadau.

Gwelwyd cynnydd mewn argyfyngau dyled hefyd - 9% o'i gymharu ag 8% yn y flwyddyn flaenorol – ac mae'r ystadegau yn dangos cynnydd yn nifer y problemau gyda dyledion llely a biliau cartref hefyd, sydd wedi cynyddu'n sylweddol ers Ebrill 2016.

Y prif resymau eraill am ddod ar ofyn y banciau bwyd yn ystod 2017-18 oedd oedi gyda budd-daliadau (24%) a newidiadau yn y budd-daliadau (18%). Er i broblemau yn sgîl sancsiynau budd-daliadau leihau yn ystod y flwyddyn, rheiny sydd ynghlwm â gostyngiad yng ngwerth budd-dâl oherwydd newidiadau yn y budd-daliadau sydd wedi cynyddu gyflymaf, a bu cynnydd sylweddol hefyd oherwydd symud i fudd-dâl newydd.

Niod y Credyd Cynhwysol (CC) yw'r unig fudd-dâl sy'n achosi trafferthion i bobl ddaw ar ofyn y banciau bwyd, ond mae'n ffactor sylweddol mewn sawl ardal. Mae dadansoddiad newydd o fanciau bwyd sydd mewn ardaloedd lle cyflwynwyd CC yn llawn ers blwyddyn neu fwy yn dangos cynnydd o 52% ar gyfartaledd yn y 12 mis ers y cyflwyniad llawn. Cynnydd o 13% a welwyd mewn ardaloedd heb CC llawn, neu sydd wedi ei gyflwyno'n llawn ers llai na thri mis. Fel y soniwyd ym [Mwletin Polisi Cytûn Mawrth 2018](#), fe gyflwynir Credyd Cynhwysol ar garlam yng Nghymru yn ystod 2018.

Ochr yn ochr â'r ffigurau, cyhoeddwyd [Left Behind: Is Universal Credit Truly Universal?](#), adroddiad newydd am Gredyd Cynhwysol a defnydd banciau bwyd. Mae'r canfyddiadau, seiliedig ar arolwg o 284 o bobl ar CC a ddaeth at fanciau bwyd, yn dangos effaith andwyol yr aros cychwynnol, anallu taliadau CC i gwrdd â chostau byw y bobl sydd fwyaf ei angen, a gweinyddu sâl.

Mae Trussell Trust felly yn galw am uwchraddio budd-daliadau yn unol â chwyddiant, yn enwedig o ran pobl anabl a theuluoedd â phlant dibynnol sydd mewn perygl arbennig o fod angen banc bwyd, a gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau gwasanaeth Cefnogaeth Gynhwysol go iawn ar gyfer pawb sy'n cychwyn cais am Gredyd Cynhwysol. Mae'n gofyn hefyd am ymchwiliad brys i weinyddu gwallus o fewn CC, fel y gellir mynd i'r afael â chamgymeriadau megis taliadau anghywir ynghyd â chyfathrebu sâl.

## **FFORWM CYMUNEDAU FFYDD YN TRAFOD** **CYDRADDOLDEB A CHYFIAWNDER**

Mewn cyfarfod gorlawn ar 16 Ebrill, dan arweiniad Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Ysgrifennydd Cabinet sy'n arwain ar gydraddoldeb, fe aeth arweinyddion prif gymunedau ffydd Cymru i'r afael â llu o faterion sy'n wynebu deiliaid ffydd yng Nghymru heddiw.

Cafwyd adroddiad gan Rocio Cifuentes, Cyfarwyddydd EYST (Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuencid Cymru) am gynhadledd **Hil, Tlodi a Chynrychiolaeth** a gynhaliwyd ar Fawrth 20, a nodi rhai o'r materion a gynhwysir yn adroddiad y gynhadledd, megis:

- Yr hyder i adrodd ar droseddau casineb
- Y twf mewn adroddiadau o ddigwyddiadau hiliol mewn ysgolion a'r angen i gynnwys hanes perthnasol yn y cwricwlwm newydd. (Cytunwyd y dylai cyfarfod Fforwm mis Tachwedd drafod y cwricwlwm ysgol newydd yn fanylach).
- Canfyddiad fod hiliaeth gyfundrefnol yn fwy o broblem na throseddau casineb.
- Effaith anghymesur cyflogau isel ar grwpiau lleiafrifol ethnig a chrefyddol, a diffyg cynrychiolaeth pobl o leiafrifoedd ethnig ymhlith rheolwyr ac ar baneli penodi.

Cafwyd gan Sinead Gallagher, **Rheolydd Cyflwyno Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru** drosolwg o'r Cynllun Cyflogadwyedd. Yn ganolog i'r cynllun mae agenda Gwaith Teg newydd, yn canolbwyntio ar gydraddoldebau a chyfleoedd cyfartal. Mae hyn yn cysylltu â'r Contract Economaidd a gynigir yng Nghynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ganolbwyntio cefnogaeth lywodraethol ar gyflogaeth sydd nid yn unig o fudd i'r economi ond sydd hefyd yn cynnig arweiniad moesol o ran datblygu staff. Comisiynwyd ymchwil am waith teg o fewn ardal Tasglu'r Cymoedd i edrych ar ddefnyddio arfau ariannu'r llywodraeth i sicrhau hyfforddiant mewn recriwtio tecach.

Cafodd y Fforwm ddiweddariad gan Steve Chapman, Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth Llywodraeth Cymru am ei waith yntau. Dywedodd fod asiantaethau yn achub mwy o bobl – cyfanswm o 193 yn 2017. Roedd 8000 o bobl wedi derbyn hyfforddiant am ddim yn ystod 2017. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn rhan o raglen i achub plant - 84 ohonynt yn 2017. Roedd cyrch yn erbyn yr hyn a elwir yn 'County lines', lle mae plant a phobl fregus yn cael eu hecsploetio fel rhan o'r fasnach gyffuriau anghyfreithlon, wedi arwain at yr euogfarn gyntaf yn Abertawe ar 13 Ebrill. Mae'r llinell gymorth Caethwasiaeth



Fodern **0800 0121700** yn adnodd hanfodol. Bu Steve hefyd yn canmol côd cadwyn cyflenwi moesegol ym mholisi caffael Llywodraeth Cymru.

Diolchodd y cynrychiolwyr ffydd i Julie James AC am ysgrifennu at bob imam ar Ebrill 3 yn mynegi ei chefnogaeth i'r gymuned Fwslimaidd yng Nghymru, mewn ymateb i lythyron maleisus a ddanfonwyd at rai teuluoedd yn Lloegr. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau cymunedol ar y diwrnod i arddangos natur gadarnhaol a chydlynol cymunedau Cymru.

### **TLODI ANGLADDOL**

Mae'r Ymgyrch Angladdau Teg, a arweinir gan Quaker Social Action ac sy'n cynnwys rhai aelod eglwysi eraill o Cytûn, yn hynod falch i Brif Weinidog y DU gyhoeddi y bydd yna Gronfa Angladdau Plant i Loegr. Bydd Lloegr felly yn dilyn esiampI Cymru trwy ddileu taliadau angladd ar gyfer plant, yn dilyn ymgyrch dan arweiniad Carolyn Harris, AS Dwyrain Casnewydd a Dirprwy Arweinydd Plaid Lafur Cymru.

# TRAFOD OBLYGIADAU BREXIT



Mewn partneriaeth ag eglwysi lleol yn [Llanbedr Pont Steffan](#) a grwpiau Cytûn yng ngogledd Cymru, cynhaliodd Cytûn ddau gyfarfod cyhoeddus i alluogi pobl i wrando ar ei gilydd am oblygiadau Brexit a pha fath o wlad yr hoffem fyw ynddi unwaith i ni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Cafwyd trafod bywiog am faterion amrywiol megis dyfodol amaethyddiaeth

a iechyd a gofal cymdeithasol; dyfodol gwaith a mudo; ein hunaniaeth yn unigolion ac yn genedl; twristiaeth a masnach deg. Bydd pob dim a ddywedwyd yn bwydo i waith Gweithgor Cymru ac Ewrop Cytûn, a gobeithir cyhoeddi rhannau (di-enw) o'r sgysiau ynghyd â deunydd arall maes o law.



Yn y cyfamser, mae'r Gweithgor wedi parhau i ddilyn datblygiadau o ran polisi cyhoeddus ac addysg, yn enwedig y drafodaeth barhaus ynghylch siâp datganoli ym Mhrydain wedi Brexit. Nid mater cyfansoddiadol haniaethol yw hyn, am y bydd yn effeithio ar ba lefel o lywodraeth y dylai dinasyddion droi ati ar gyfer cymorth a chefnogaeth i'r dyfodol.

Ar ddiwedd Ebrill, fe ddaeth Llywodraethau Cymru a'r DU i [gytundeb](#) am sut y rhennir cyfrifoldeb yn ystod cyfnod o hyd at saith mlynedd ar ôl Brexit, wrth i waith barhau ar osod fframwaith o gyfreithiau'r DU yn lle'r fframwaith Ewropeaidd bresennol mewn meysydd megis amaeth, yr amgylchedd, a'r berthynas economaidd rhwng cenhedloedd y DU. Gellir darllen holl bapurau briffio'r Gweithgor yn: <http://www.cytun.cymru/cymruewrop/index.html>

## DYFODOL LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMURU

Ar yr un pryd ag y mae ein perthynas ag Ewrop a'r trefniant datganoli yn newid, felly hefyd llywodraeth leol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [cynigion newydd i ddiwygio llywodraeth leol](#) (y pedwerydd cynnig mewn tair blynedd) ac mae Cytûn yn paratoi i ymateb. Mae Gweithgor Cymru ac Ewrop wedi mynegi ei bryder am effaith ansefydlogrwydd ar sawl lefel o fewn ein llywodraeth, a mae swyddogion enwadol wedi cyfrannu eu sylwadau. **Rydym nawr am glywed gan aelodau eglwysig a darllenwyr eraill y *Bwletin* sy'n gynghorwyr lleol, yn gweithio i lywodraeth leol neu yn ymwneud â hi.** Dylid danfon sylwadau at [gethin@cytun.cymru](mailto:gethin@cytun.cymru) erbyn Mai 30ain.

Mae adolygiad ar wahân yn cael ei gynnal ar [ddyfodol cynghorau cymuned a thref](#) yng Nghymru – y llywodraeth fwyaf lleol o'r cyfan. Mae Cytûn yn ymbaratoi i ymateb i hyn hefyd a byddem yn **croesawu mewnbyn gan gynghorwyr tref a chymuned** a darllenwyr eraill. Ar Fai 24ain bydd nifer o grwpiau cymunedol, yn cynnwys rhai eglwysi, yn cynnal sesiynau 'galw i mewn' i gasglu barn pobl – edrychwch am gyhoeddusrwydd yn lleol. Mae yna [arolwg cyhoeddus byr i chi gyflwyno'ch barn](#), gallwch drydar gan ddefnyddio #EinCymunedEinCyngor neu gallwch gysylltu â'r panel yn uniongyrchol drwy e-bost: [Adolygiad.CTC.Review@llyw.cymru](mailto:Adolygiad.CTC.Review@llyw.cymru).

## Mesur y Mynydd – Deall Profiadau Gofal Cymdeithasol yng Nghymru



Mae Mesur y Mynydd yn brosiect Cymru gyfan i werthuso effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'n gydweithrediad rhwng y sector gyhoeddus, y drydedd sector ac, yn fwyaf pwysig, y bobl sy'n byw yma. Bydd y prosiect, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn casglu straeon oddi wrth bobl â phrofiad diweddar o ofal cymdeithasol er mwyn creu darlun o sut mae gofal cymdeithasol yn teimlo ar gyfer yr unigolion sy'n rhan ohono.

Mae tîm Mesur y Mynydd yn gobeithio gweithio gyda sefydliadau ledled Cymru, i roi gwybod i bobl am y prosiect a hefyd i helpu i greu rhwydwaith o Wrandawyr. Bydd Gwrandawyr yn helpu pobl i rannu'u straeon a byddant yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau fod modd i bawb sydd â stori i'w hadrodd allu'i rhannu. Gall Gwrandawyr fod yn staff neu wirfoddolwyr: bydd modd i wirfoddolwyr ymuno â rhwydwaith Credydau Amser Spice ac ennill Credydau Amser am y straeon a gasglwyd ganddynt.

Bydd Mesur y Mynydd yn rhannu'r canfyddiadau â Llywodraeth Cymru, gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol, cyfranogwyr a, thrwy gyfrwng y wefan a chyflwyniadau, â phobl yng Nghymru. Ym mis Medi, bydd y prosiect yn cynnal Rheithgor Dinasyddion yn Stadiwm Liberty, Abertawe, i graffu ar faterion allweddol sy'n codi o'r straeon. Bydd aelodau'r cyhoedd yn archwilio cwestiwn polisi, yn dod i ganlyniadau ac yn cyflwyno'u hargymhellion.

Os oes gennych chi stori i'w rhannu, neu'n gwybod am eraill hoffai wneud, cymerwch ran os gwelwch yn dda. Gellir cael gwybodaeth bellach am bob agwedd o'r prosiect, gan gynnwys sut i fod yn Wrandawr, rhannu stori neu gymryd rhan yn y Rheithgor Dinasyddion, ar wefan Mesur y Mynydd [www.mtm.wales](http://www.mtm.wales) / [www.mym.cymru](http://www.mym.cymru) Neu gallwch gysylltu â rheolwr y prosiect, Katie - [kcooke@interlinkrct.org.uk](mailto:kcooke@interlinkrct.org.uk) / 07964 407 739

## CYFRAITH CYNLLUNIO AC ADEILADAU RHESTREDIG

Mae'r cyfreithiau o gwmpas beth all neu na all perchnogion eu gwneud â'u hadeiladau yn anodd eu deall, ac yn creu rhwystredigaeth i eglwysi ac eraill. Ac fe all preswylwyr lleol sydd am gefnogi neu gwrthwynebu datblygiad ei chael hi'n anodd gwybod sut i wneud.

Mae yna nifer o adolygiadau yn digwydd ar hyn o bryd. Mae [Comisiwn y Gyfraith](#) yn anelu at greu Côt Cynllunio newydd i Gymru. Fe ymatebodd Cytûn i'r ymgynghoriad yn mynegi gofid am na gyfeiriwyd at addoldai rhestredig – camgymeriad ar ran y Comisiwn, yn ôl a ddeallwn. Wrth i'r Comisiwn ystyried y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori am [ganllawiau ynghylch addoldai rhestredig](#) y presennol, yn enwedig y rhai sy'n rhan o'r hyn a elwir yn 'esemptiad eglwysig' (addoldai Catholig, Anglicanaidd, Methodistaidd a rhai o gapeli'r Bedyddwyr). Bydd Cytûn yn ymateb ar ran ein haelod eglwysi.

Cyflwynodd Cytûn dystiolaeth i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Cynulliad yn Nhachwedd 2017, yn dadlau fod y nifer fawr o addoldai rhestredig yng Nghymru yn achosi problemau dwys i rai o'n haelod eglwysi, ac i gymunedau lleol, gan nad oes modd eu cynnal nhw i gyd yn foddhaol. Fe gyhoeddodd y Pwyllgor ei [adroddiad](#) yn Ebrill a mynegi cydymdeimlad, ond nid oeddynt yn derbyn ein dadleuon dros newid.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori hefyd am rifyn newydd o'r ddogfen ganllaw [Polisi Cynllunio Cymru](#), ar y [Fframwaith Datblygu Cenedlaethol](#) ac ar sut y gwneir penderfyniadau am [waith datblygu'r seilwaith](#). Bydd y rhain yn effeithio ar siâp Cymru am flynyddoedd i ddod. Bydd Cytûn yn ymateb am y materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r eglwysi (ond nid ar faterion ehangach).

## CARCHARDAI A CHARCHARORION CYMRU



Ar 27 Mawrth, fe fu cyn-gaplan Carchar Altcourse, y Barch. Nan Wyn Powell-Davies o Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn [cyflwyno tystiolaeth gerbron Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin](#) am yr angen am well darpariaeth mewn carchardai ar gyfer Cymry Cymraeg. Fe deimlai fod anghenion diwylliannol, emosiynol a iechyd meddyliol carcharorion Cymraeg yn cael eu hesgeuluso – a dyw'r Gwasanaeth Carchardai ddim hyd yn oed yn gwybod faint o Gymry sydd yn y carchar. Mae yna broblemau arbennig ynghylch merched a charcharorion ifainc, gan nad oes cyfleusterau ar eu cyfer yng

ngarchardai Cymru ar hyn o bryd.

Mae darparu carchardai yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU. Ond mae Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Wasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies AC, wedi [cyhoeddi](#) na fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi adeiladu carchardai pellach yng Nghymru hyd nes y datrysir materion ynghylch y pwysau canlyniadol ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac ystyriaeth bellach ar ddatganoli a mynediad at gyfiawnder yng Nghymru, sydd ar hyn o bryd dan ystyriaeth y [Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru](#).

## RHOI ORGANAU YNG NGHYMURU AR GYNNYDD

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fod [nifer y rhoddwyr organau yng Nghymru yn 2017/18 yn uwch nag erioed](#) – cyfanswm o 74. Fel mae'r datganiad yn cydnabod, mae niferoedd yn amrywio felly bydd yn amser eto nes y gellir mesur yn ddibynadwy effaith y newid i drefn "optio-allan meddal" yng Nghymru. Roedd rhai o aelod eglwysi Cytûn yn cefnogi'r newid cyfreithiol hwn, ac eraill yn ei wrthwynebu. Mae [Mesur AS unigol](#) wedi'i osod gerbron Senedd y DU i gyflwyno newid tebyg yn Lloegr, ac mae'n debyg y ceir Mesur Llywodraethol ar hyd yr un llinellau yn [yr Alban](#) hefyd.

## CREFYDD YN NHRYDYDD SECTOR CYMRU

Mae [Porth Data'r Trydydd Sector](#) gan Gyngor Gweithredu Cymru (WCVA) yn cynnwys gwybodaeth diddorol am y mwy na 32,000 o fudiadau trydydd sector yng Nghymru, yn cynnwys elusennau, sefydliadau dim-er-elw a mudiadau gwirfoddol o bob math, mawr a bach; lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r data yn dangos mai mudiadau crefyddol yw'r trydydd carfan fwyaf – y tu ôl i chwaraeon a hamdden a sefydliadau cymunedol.

## CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTÛN



Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer  
Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales  
58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT  
Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062

E-bost/E-mail: [gethin@cytun.cymru](mailto:gethin@cytun.cymru)  [@CytunNew](https://twitter.com/CytunNew) 

*Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English*

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |

Mae Cytûn yn elusen gofrestrddig | Rhif: 1117071 |

Dyddiad cyhoeddi: 2 Mai 2018. Cyhoeddir y Bwletin nesaf tua diwedd Gorffennaf 2018.